www.jbaconsulting.com

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Ymchwiliad i Lifogydd Adran 19

Dalgylch Afon Mynwy: Storm Claudia, Tachwedd 2025

Terfynol

Paratowyd ar gyfer	Dyddiad
Cyngor Sir Fynwy	Medi 2026

Statws Dogfen

Dyddiad cyhoeddi	Medi 2026
Cyhoeddwyd i	Cyngor Sir Fynwy
Cyfeiriad BIM	RPI-JBA-XX-XX-RP-HM-0001-A1-C03-Adroddiad_Ymchiliad_Llifogydd_Adran_19_Storm_Claudia
Adolygiad	Terfynol
Paratowyd gan	Polly Stradling BSc (Hons) Dadansoddwr Cynorthwyol
Adolygwyd gan	Faye Tomalin BSc (Hons) MSc MCIWEM C.WEM Prif Ddadansoddwr
Awdurdodwyd gan	Faye Tomalin BSc (Hons) MSc MCIWEM C.WEM Rheolwr Prosiect

Crynodeb Gweithredol

Paratowyd yr Adroddiad Ymchwiliad i Lifogydd Adran 19 yma gan JBA Consulting ar gyfer Cyngor Sir Fynwy, yn ei rôl fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn unol â'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Pwrpas yr ymchwiliad hwn yw deall achosion ac effeithiau'r llifogydd a ddigwyddodd yn ystod Storm Claudia ym mis Tachwedd 2025, nodi'r Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol, ac adolygu sut gweithredwyd eu swyddogaethau.

Effeithiodd Storm Claudia ar Sir Fynwy rhwng y 9fed â'r 15fed o fis Tachwedd 2025, gan ddod a glaw hirbarhaol ac, yn lleol, trwm iawn i ddalgylch yr Afon Mynwy. Digwyddodd yr effeithiau mwyaf difrifol ar y 14eg a'r 15fed o Dachwedd, pan arweiniodd glawiad parhaus ar dir oedd eisoes yn ddirlawn at gyfraddau dŵr ffo cyflym iawn a lefelau afon eithriadol o uchel. Ymatebodd yr Afon Mynwy yn gyflym, gan gyrraedd lefelau record neu bron yn record a gorlifo ei glannau mewn nifer o leoliadau.

Roedd llifogydd yn bennaf yn afonol, gyda llif yn yr Afon Mynwy yn mynd dros ben cynhwysedd ei sianel ac yn llifogi'r gorlifdiroedd cyfagos. Gwelwyd effeithiau sylweddol yn Ynysgynwraidd, Llanoronwy, Forge Road, Osbaston, a Threfynwy. Effeithiodd tirwedd leol, lefelau trothwy eiddo, a chydadweithiau gyda llednentydd a chyrsiau dŵr cyffredin ar lwybrau a difrifoldeb y llifogydd. Mewn sawl ardal, cyfrannodd effeithiau ôl-ddŵr a chydadweithiau gyda chyrsiau dwr llai i hyd lifogydd estynedig. Adroddwyd hefyd bod dŵr daear wedi codi i'r wyneb mewn ardaloedd isel oherwydd lefelau uchel parhaus yn yr afonydd.

Roedd y digwyddiad yn sylweddol mewn maint, gydag oddeutu 403 eiddo preswyl a masnachol wedi ei effeithio ar draws Ardaloedd Astudiaeth yr adroddiad hwn, gan gynnwys llifogydd mewnol eang. Roedd dyfnder y llifogydd yn fwy na 1.5m mewn sawl man, gan gynnwys o fewn unedau masnachol ar hyd Stryd Mynwy, Trefynwy, ac ar draws Ynysgynwraidd, Llanoronwy, a Forge Road. Achosodd y llifogydd amhariad sylweddol i gymunedau, isadeiledd a gwasanaethau, gan gynnwys difrod i'r cyflenwad pŵer lleol ac i asedau allweddol megis gorsaf bwmpio Heol Wonastow.

Amrywiodd perfformiad rheolaeth risg llifogydd ar draws y dalgylch. Yn Nhrefynwy a Forge Road, Osbaston roedd amddiffynfeydd llifogydd ffurfiol yn cynnig amddiffyniad rhannol, ond cawsant eu gorlifo lle roedd lefelau'r afon yn uwch na'u safon amddiffyn effeithiol. Mewn cyferbyniad, lle nad oedd amddiffynfeydd ffurfiol yn bresennol yn Ynysgynwraidd a Llanoronwy, roedd rhai eiddo yn dibynnu ar fesurau Gwytnwch Llifogydd Eiddo, oedd yn darparu ychydig iawn o amddiffyniad yn ystod digwyddiad o'r maint hwn.

Y tu hwnt i effeithiau ffisegol, cafodd y digwyddiad ganlyniadau cymdeithasol ac emosiynol nodedig, yn enwedig mewn cymunedau lle mae llifogydd wedi effeithio arnynt dro ar ôl tro. Mewn cyferbyniad, roedd rhai ardaloedd o Drefynwy yn ystyried y digwyddiad fel un eithafol ac yn annhebygol o ddigwydd eto, a allai leihau parodrwydd yn y dyfodol.

Ar y cyfan, mae Storm Claudia yn cynrychioli digwyddiad llifogydd difrifol o fewn dalgylch yr Afon Mynwy. Amlygodd gwendidau allweddol mewn rheolaeth risg llifogydd, gwytnwch isadeiledd, systemau rhybuddio a pharodrwydd cymuned. Mae'r darganfyddiadau yn


pwysleisio'r angen ar gyfer dull cydlynol, ar raddfa dalgylch, wedi'i gefnogi gan fodelu gwell, ymyriadau lleol wedi'u targedu, a chryfhad mewn gwytnwch cymunedol.

www.jbaconsulting.com



Our Offices

Bristol
Coleshill
Cork
Doncaster
Dublin
Edinburgh
Exeter
Glasgow
Haywards Heath
Leeds
Limerick
Newcastle
Newport
Peterborough
Portsmouth
Saltaire
Skipton
Tadcaster
Thirsk
Wallingford
Warrington



Registered Office
1 Broughton Park
Old Lane North
Broughton
SKIPTON
North Yorkshire
BD23 3FD
United Kingdom

+44(0) 1756 799919
info@jbaconsulting.com
www.jbaconsulting.com

Follow us on

Jeremy Benn
Associates Limited
Registered in
England
3246693

JBA Group Ltd is
certified to
ISO 9001:2015
ISO 14001:2015
ISO 27001:2022
ISO 45001:2018